# Diogelu Hawliau Plant

## Adroddiad Cymru ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Helo

**Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau, dim ots pwy ydyn nhw, lle maen nhw'n byw neu beth maen nhw'n credu ynddo.**

**Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymrwymo i'r CCUHP ac wedi cyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni wneud y canlynol:

- meddwl am a pharchu CCUHP a rhaid i Weinidogion Llywodraeth Cymru ystyried hawliau plant ym mhopeth maen nhw'n ei wneud
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP i bawb yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Bob 5 mlynedd mae'n rhaid i ni adrodd ar hawliau plant i'r **Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn**. Maen nhw'n edrych ar sut rydyn ni'n gwarchod ac yn hyrwyddo eich hawliau.

Mae'r Pwyllgor hwn yn grŵp o 18 o bobl o bob cwr o'r byd.

Maen nhw wedi anfon **rhestr o faterion** i ni maen nhw eisiau gwybod mwy amdanyn nhw.

**Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthych chi am rai pethau diddorol rydym ni wedi'u rhoi yn ein hymateb i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig.**

## Dyma rai o'r hawliau:

**Erthygl 4**
Dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod hawliau plant yn cael eu parchu.

**Erthygl 6**
Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw ac i dyfu i fyny gyda phopeth maen nhw ei angen.

**Erthygl 12**
Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwrandawiad a'u cymryd o ddifrif.

**Erthygl 27**
Mae gan blant yr hawl i dai, bwyd a dillad.

**Erthygl 28**
Mae gan blant yr hawl i gael addysg.

**Erthygl 42**
Dylai pawb gael gwybod a bod yn ymwybodol o Hawliau Plant.

## Cipolwg...

# rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud ers yr adroddiad diwethaf

### Eich amddifyn a'ch cadw'n ddiogel rhag niwed a cham-drin.

**Fe wnaethon ni newid deddfau a:**

- gwneud **cosb gorfforol**, fel taro, yn anghyfreithlon yng Nghymru
- sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn cael y gefnogaeth gywir a bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.

**Fe wnaethom ni ddatblygu canllawiau newydd fel bod:**

- ysgolion yn cefnogi eich **iechyd meddwl a lles** yn well

**Fe wnaethon ni sicrhau bod cyllid ar gael er mwyn:**

- helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i gefnogi eich **lles**

### Eich cefnogi chi drwy Covid-19 a sicrhau nad oedd eich hawliau yn cael eu niwedio.

**Fe wnaethon ni gefnogi teuluoedd:**

- drwy roi **prydau ysgol am ddim** yn ystod gwyliau ysgol a'r pandemig
- drwy **Raglen Plant Iach Cymru**

**Fe wnaethon ni sicrhau bod cyllid ar gael er mwyn:**

- helpu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant
- cefnogi prosiectau creadigol a **chwarae**
- cefnogi mwy o **gwnsela** a gwasanaethau iechyd meddwl
- helpu teuluoedd ar incwm isel
- cefnogi **banciau bwyd**

**Fe wnaethom ni gefnogi dysgwyr drwy:**

- roi **216,000 o gyfrifiaduron** a dyfeisiau eraill i ysgolion
- rhoi 4G MiFi symudol i ysgolion
- datblygu adnoddau am **iechyd meddwl a lles**

### Gwneud yn siŵr eich bod chi'n cymryd rhan ac yn cael gwrandawiad.

**Rydym ni wedi diweddaru** Cynllun Hawliau Plant 2021. Mae'n amlinellu eich hawl i gael gwrandawiad gan Weinidogion Cymru a'r rhai eraill sy'n gwneud penderfyniadau.

**Rydym ni hefyd wedi sicrhau eich bod chi'n cael cyfleoedd i gael gwrandawiad ac:**

- wedi **gostwng yr oed** pleidleisio felly gall pobl ifanc 16-17 mlwydd oed bleidleisio yn etholiadau Cymru
- gwrando ar dros **120,000 o bobl ifanc** mewn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr
- gwrando ar dros **43,000 o blant a phobl ifanc** ar sut wnaeth y pandemig effeithio ar eu bywydau
- wedi cynnwys pobl ifanc wrth ysgrifennu ein cynlluniau i leihau carbon a gwneud Cymru'n **Sero Net** erbyn 2030
- parhau i ariannu sefydliadau fel plant Cymru fel bod **gan bobl ifanc fwy o ffyrdd o ddweud eu dweud**

# Adrodd ar... gweithredoedd llywodraeth

**Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod sut rydyn ni'n gwarchod eich hawliau ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.**

## Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- yn meddu ar Gynllun Plant a Phobl Ifanc newydd sydd wedi'i adeiladu ar hawliau plant
- wedi sefydlu Tîm Hawliau Plant sy'n rhoi cyngor ar hawliau plant, gan gynnwys i Weinidogion Cymru
- wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (CRAG)
- wedi rhoi arian i wneud yn siŵr y gall plant a phobl ifanc fwynhau eu hawliau
- wedi dweud wrth bobl am hawliau plant a chael cynllun codi ymwybyddiaeth

Rydyn ni hefyd wedi bod yn siarad gyda Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio gyda'n gilydd ar hawliau plant.



**Mae'r erthyglau hyn yn cysylltu â gweithredoedd y llywodraeth:**

**Erthygl 4**
Dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod eich hawliau chi'n cael eu parchu.

**Erthygl 42**
Dylai pawb wybod am y CCUHP.

**Erthygl 44**
Rhaid i'r Llywodraeth adrodd ar sut maen nhw'n amddiffyn eich hawliau.

# Adrodd ar... yr egwyddorion

## Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod beth rydyn ni'n ei wneud i ddiogelu'r 4 egwyddor.

### Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- wedi gosod cynlluniau i ddelio â thlodi a chefnogi teuluoedd
- wedi lansio Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru gyda'r nod o fynd i'r afael â hiliaeth sy'n bodoli yng nghyfreithiau a rheoliadau cymdeithas a sefydliadau
- wedi ariannu Canolfan Cymorth Casineb 24/7 Cymru i helpu dioddefwyr troseddau casineb
- wedi cydweithio ag arweinwyr ffydd i gefnogi dealltwriaeth a pharch
- wedi ariannu prosiect Teithio Ymlaen i gefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- yn meddu ar gynlluniau i wneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop
- yn meddu ar brosiectau i helpu menywod beichiog i fod yn iach a chael genedigaeth ddiogel
- wedi gwneud cyfreithiau fel bod gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n cael eu gwarchod, mewn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal
- wedi cefnogi dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol fel y gallant gymryd rhan a chael gwrandawiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau

Rydym ni hefyd yn diogelu'r 4 egwyddor trwy wneud yn siŵr bod y CCUHP wrth wraidd popeth rydym ni'n ei wneud.



**Dyma'r 4 egwyddor:**

**Erthygl 2** Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn.

**Erthygl 3** Mae'n rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i mi.

**Erthygl 6** Dylwn i gael fy nghefnogi i fyw a thyfu.

**Erthygl 12** Mae gen i'r hawl i gael gwrandawiad a'm cymryd o ddifrf.

# eich hawliau a'ch rhyddid

Mae gan bob plentyn hawliau a rhyddid sy'n perthyn iddyn nhw o'u genedigaeth. Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn. Does dim rhaid iddyn nhw wneud dim i'w cael nhw. Mae hyn yn cynnwys eich rhyddid mynegiant, crefydd, rhyddid i ymuno â grwpiau a dod at ei gilydd gyda phobl eraill.

**Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod sut rydyn ni'n gwarchod eich hawliau a rhyddid.**

## Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- wedi datblygu'r Cwricwlwm Newydd sy'n hyrwyddo CCUHP ac yn cefnogi dysgwyr i gadw'n ddiogel
- wedi buddsoddi mewn technoleg a band eang cyflym iawn mewn ysgolion
- wedi sicrhau bod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd gyngor, gwybodaeth a chanllawiau i'w cefnogi i gadw'n ddiogel ar-lein — "Cadw'n Ddiogel Ar-lein" and "Bydd Wybodus'



**Mae'r erthyglau hyn yn cysylltu â'ch hawliau a'ch rhyddid:**

**Erthygl 7**
Mae gen i hawl i enw ac i berthyn i wlad.

**Erthygl 8**
Mae gen i hawl i hunaniaeth, cenedligrwydd a pherthynas deuluol.

**Erthygl 13**
Mae gen i'r hawl i ddarganfod a rhannu gwybodaeth.

**Erthygl 14**
Mae gen i'r hawl i gael fy meddyliau a'm credoau fy hun ac i ddewis fy nghrefydd gydag arweiniad fy rhieni.

**Erthygl 15**
Mae gen i'r hawl i gyfarfod â ffrindiau ac i ymuno â grwpiau.

**Erthygl 16**
Mae gen i'r hawl i gadw rhai pethau'n breifat.

**Erthygl 17**
Mae gen i'r hawl i gael gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd, cyn belled â'i fod yn ddiogel.

# Adrodd ar... gadw plant yn ddiogel rhag trais a niwed

Dylai pob plentyn fod yn ddiogel dim ots lle maen nhw. Ddylen nhw byth wynebu trais na niwed.

**Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod beth rydyn ni'n ei wneud i gadw plant yn ddiogel.**

## Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- wedi datblygu canllawiau fel nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu cyfyngu trwy gael eu dal i lawr neu eu hynysu oni bai fod hynny i'w cadw nhw neu eraill yn ddiogel
- wedi newid y gyfraith a gwneud cosb gorfforol, fel taro, yn anghyfreithlon
- wedi helpu rhieni gyda chyngor rhianta positif drwy'r ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo'
- wedi gwneud yn siŵr bod plant sy'n profi gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael y cymorth cywir fel nad ydyn nhw'n dod i gysylltiad â'r heddlu
- wedi sicrhau bod pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn gwybod sut i nodi plentyn mewn perygl o gael eu cam-drin neu niwed a sut i'w cadw'n ddiogel
- wedi ariannu cyrsiau ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sioe deithiol plant a phobl ifanc a chyrsiau ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc
- wedi cyflwyno hyfforddiant dan Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol o fis Medi 2022 ar effeithiau cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc
- wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddod ag arferion niweidiol fel priodas dan orfod i ben



**Mae'r erthyglau hyn yn cysylltu â chadw plant yn ddiogel:**

**Erthygl 19**
Mae gen i'r hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy mrifo neu fy nhrin yn wael.

**Erthygl 24**
Mae gen i'r hawl i ofal iechyd o ansawdd da, i ddŵr glân a bwyd da.

**Erthygl 28**
Mae gen i hawl i gael addysg.

**Erthygl 34**
Ni ddylai unrhyw gyffwrdd â phlant mewn ffyrdd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist.

**Erthygl 37**
Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu boenus.

**Erthygl 39**
Mae gen i'r hawl i gael help os ydw i wedi cael fy mrifo, fy esgeuluso neu fy nhrin yn wael.

# Adrodd ar...
# deulu a gofal arall

Mae gan bob plentyn yr hawl i deulu ac i gael gofal. Os nad yw'n ddiogel a bod plentyn methu aros gyda'i deulu, mae'n rhaid i ni sicrhau eu bod nhw'n cael y gofal gorau posib.

**Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod sut rydyn ni'n cefnogi teuluoedd a phlant.**

## Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- wedi sicrhau bod teuluoedd yn cael cefnogaeth yn gyflym
- wedi cyflwyno cyfreithiau sy'n gwneud i awdurdodau lleol, cyn belled ag y bo modd, ddarparu lleoliadau profiadol i blant sydd wedi profi gofal sy'n diwallu eu hanghenion a chymryd camau i sicrhau eu bod nhw'n rhan o'r cynllunio
- wedi gweithio i gynyddu nifer y gofalwyr maeth
- wedi ariannu cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc sy'n gadael gofal fel eu bod nhw'n cael y cyfle i gael Cynghorydd Personol
- wedi lansio cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' er mwyn i bobl ifanc gael aros gyda'u gofalwr maeth ar ôl 18
- wedi lansio'r cynllun peilot incwm Sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal eu cefnogi wrth iddynt bontio i fywyd fel oedolyn



### Mae'r erthyglau hyn yn cysylltu â theulu a gofal arall:

**Erthygl 5**
Dylai'r Llywodraeth barchu hawl eich teulu i'ch helpu i wybod am eich hawliau.

**Erthygl 9**
Mae gen i hawl i fyw gyda theulu sy'n gofalu amdana i.

**Erthygl 10**
Mae gen i'r hawl i weld fy nheulu os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall.

**Erthygl 11**
Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghymryd allan o'r wlad yn anghyfreithlon.

**Erthygl 18**
Mae gen i'r hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yn bosib.

**Erthygl 20**
Mae gen i'r hawl i amddiffyniad arbennig a help os na alla i fyw gyda fy nheulu fy hun.

**Erthygl 21**
Mae gen i'r hawl i gael y gofal gorau os caf fy mabwysiadu.

**Erthygl 25**
Os nad ydw i'n byw gyda fy nheulu, dylai pobl barhau i wirio fy mod yn ddiogel ac yn hapus.

**Erthygl 27**
Mae gen i'r hawl i gael tŷ iawn, bwyd a dillad.

# Adrodd ar... iechyd a lles


## Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod beth rydyn ni'n ei wneud i sicrhau bod pob plentyn yn iach.

### Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- wedi amlinellu sut y byddwn ni'n mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru
- yn meddu ar gynlluniau i leihau anghydraddoldebau iechyd — Cymru Iachach
- wedi ymrwymo i roi Bwndeli Babi yn llawn cynhyrchion a gwybodaeth i deuluoedd â babanod newydd
- wedi gosod cynlluniau ar gyfer Cymru Ddi-fwg
- wedi gosod cynlluniau ar gyfer Urddas Misglwyf yng Nghymru
- wedi lansio'r cynllun Pwysau Iach: Cymru Iach
- wedi darparu prydau ysgol am ddim i blant mewn teuluoedd incwm isel
- wedi cefnogi clybiau brecwast am ddim mewn Ysgolion Cynradd
- wedi rhoi llaeth ysgol am ddim i blant ifanc
- wedi cryfhau'r cymorth sy'n cael ei roi i wasanaethau cymunedol iechyd meddwl i blant a phobl ifanc
- wedi gosod cynlluniau i leihau llygredd a gwneud Cymru'n le mwy iach i fyw ynddo
- wedi ei gwneud hi'n haws i bobl dderbyn y cymorth ariannol y mae hawl ganddynt i'w gael

Rydyn ni hefyd yn gofyn i Lywodraeth y DU ail-feddwl rhai o'u penderfyniadau ynglŷn â budd-daliadau fel ein bod ni'n gallu helpu i gadw teuluoedd allan o dlodi.



**Mae'r erthyglau hyn yn cysylltu ag iechyd a lles:**

**Erthygl 6**
Dylwn i gael fy nghefnogi i fyw a thyfu.

**Erthygl 18**
Mae gen i'r hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yn bosib.

**Erthygl 24**
Mae gen i'r hawl i ofal iechyd o ansawdd da, i ddŵr glân a bwyd da.

**Erthygl 26**
Dylai fy nheulu gael yr arian sydd ei angen arnyn nhw i helpu i'm magu.

**Erthygl 27**
Mae gen i'r hawl i gael tŷ iawn, bwyd a dillad.

**Erthygl 33**
Dylwn i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus (gan gynnwys unrhyw effeithiau o ddefnydd cyffuriau rhiant).

# Adrodd ar...
# addysg a gweithgareddau eraill

**Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod beth rydyn ni'n ei wneud i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg ac yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau.**

## Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- wedi helpu dysgwyr mewn teuluoedd incwm isel i gyflawni eu gorau yn yr ysgol
- wedi helpu teuluoedd i dalu am gost gwisg ysgol ac offer
- wedi sicrhau bod cyllid ar gael i helpu ysgolion gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- wedi sicrhau bod cyllid ar gael i helpu ysgolion i gefnogi plant sy'n derbyn gofal
- wedi datblygu canllawiau i leihau nifer y dysgwyr sy'n cael eu heithrio o ysgolion
- wedi gweithio i helpu ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi profiadau cam-drin, esgeulustod neu brofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod (ACE)
- wedi datblygu canllawiau i atal bwlio mewn ysgolion — 'Hawliau, parch, cydraddoldeb'
- wedi sicrhau bod y cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys dysgu am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig



**Mae'r erthyglau hyn yn cysylltu ag addysg a gweithgareddau eraill:**

**Erthygl 28**
Mae gen i hawl i gael addysg.

**Erthygl 29**
Mae gen i hawl i addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, parch at hawliau pobl eraill a'r amgylchedd.

**Erthygl 30**
Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw.

**Erthygl 31**
Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae.

# Adrodd ar... amddiffyniad cymdeithasol

Weithiau mae angen cymorth ychwanegol ar blant i gael eu hawliau. Mae hynny'n cynnwys plant sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr.

**Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod beth rydyn ni'n ei wneud i sicrhau bod gan bob plentyn eu hawliau.**

## Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- yn meddu ar gynllun gyda chamau gweithredu i wneud Cymru yn Genedl Noddfa i unrhyw un sy'n dod i ailgychwyn ac ailsefydlu yng Nghymru
- wedi sicrhau bod pobl sy'n chwilio am noddfa yma yn cael cefnogaeth a chyngor am eu hawliau gan wasanaethau'n cynnwys plant a phlant ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain
- wedi croesawu pobl o Afghanistan ac Wcráin wrth iddyn nhw ffoi o'u gwledydd i ddianc rhag rhyfel, gan gynnig cymorth gyda'u hadsefydlu
- wedi sicrhau bod pobl yn gallu cael cefnogaeth yn yr iaith o'u dewis
- wedi gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn ddiogel, yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ac yn cael eu hawliau

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am benderfyniadau am fewnfudo a cheiswyr lloches. Rydyn ni'n siarad ac yn gweithio gyda nhw yn rheolaidd i sicrhau bod pawb sy'n cael eu rhoi yng Nghymru yn cael y gefnogaeth orau ac yn gallu ymgartrefu mewn bywyd cymunedol yma.



**Mae'r erthyglau hyn yn cysylltu ag amddiffyniad arbennig:**

**Erthygl 22**
Os ydw i'n ffoadur, mae gen i'r un hawliau â phlant sy'n cael eu geni yn y wlad honno.

**Erthygl 30**
Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw.

**Erthygl 32**
Ni ddylwn gael fy ngwneud i wneud gwaith peryglus.

**Erthygl 33**
Dylwn i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus (gan gynnwys defnydd cyffuriau rhiant).

**Erthygl 35**
Ni ddylwn gael fy herwgipio (cymryd i ffwrdd), fy ngwerthu na fy masnachu.

**Erthygl 36**
Mae gen i'r hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag pethau allai niweidio fy natblygiad.

**Erthygl 37**
Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu boenus.

**Erthygl 39**
Mae gen i'r hawl i gael help os ydw i wedi cael fy mrifo, fy esgeuluso neu fy nhrin yn wael.

**Erthygl 40**
Mae gen i'r hawl i gael cymorth cyfreithiol ac i gael fy nhrin yn deg os ydw i wedi cael fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith.

Ers i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig gael ei ysgrifennu, mae'r byd wedi newid. Mae mwy o risgiau ar-lein, risgiau masnachu, puteindra plant a pornograffi plant. Mae'r Pwyllgor yn poeni am hyn.

**Mae'r Pwyllgor eisiau gwybod sut rydyn ni'n delio â'r risgiau hyn.**

## Rhai pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Rydym ni:

- yn meddu ar gyfreithiau i amddiffyn plant rhag cam-fanteisio rhywiol a cham-drin
- yn meddu ar ganllawiau i bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau ar sut i adnabod plentyn sydd mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth ac ar sut i'w cadw'n ddiogel
- wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar sut i atal cam-drin plant yn rhywiol ac ar sut i gadw plant yn ddiogel a chefnogi plant sy'n cael eu cam-drin fel hyn
- wedi sicrhau bod dioddefwyr cam-fanteisio rhywiol neu gaethwasiaeth yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i adfer wedi hyn
- yn gwrando ar brofiadau plant a phobl ifanc er mwyn i ni ddysgu ohonyn nhw
- yn dod â sefydliadau at ei gilydd i daclo caethwasiaeth fodern a chefnogi goroeswyr
- wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a Barnardo's ar ddarparu cymorth ymarferol, seicolegol ac emosiynol i blant sydd wedi'u masnachu
- wedi cyfrannu at ymchwil ar y ffordd orau y gall sefydliadau gefnogi plant sydd wedi'u masnachu

# Diolch am ddarllen hwn

**Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:**
[llyw.cymru/hawliau-plant](llyw.cymru/hawliau-plant)

